Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

# ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO 2024–2025

## Cyflwyniad

Croeso i adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro ar gyfer 2024–2025, lle'r ydym yn nodi'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion a osodwyd yn ein cynllun llesiant ar gyfer Sir Benfro.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith y mae partneriaid y BGC wedi bod yn ei gyflawni i ddiwallu ein 'dyletswydd llesiant' ar y cyd i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol pobl a chymunedau yn Sir Benfro, nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu gweithio'n wahanol a chanolbwyntio ar feysydd lle gall gweithio mewn partneriaeth gael yr effaith fwyaf, a lle mae ein dylanwad ar y cyd yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i'r hyn a wnawn eisoes fel sefydliadau unigol.

## Rhagair

Dyma ein hail adroddiad blynyddol yn dilyn cyhoeddi ein cynllun llesiant diweddaraf yn 2023, ac mae'n amlinellu cynnydd yn erbyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun.

Eleni cynhaliwyd yr ail uwchgynhadledd tlodi flynyddol yn Sir Benfro, gyda'r ffocws ar ddod â chroestoriad o weithwyr proffesiynol ac arweinwyr lleol o amrywiaeth o sefydliadau ynghyd, ochr yn ochr ag aelodau'r BGC, i archwilio atebion i liniaru tlodi yn yr ardal leol. Cyhoeddwyd strategaeth gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro yn y gwanwyn hefyd, sy'n anelu at gefnogi ac ysbrydoli unigolion, sefydliadau a busnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol ystyrlon sy'n fuddiol i wirfoddolwyr, yr 'ecosystem' gwirfoddoli a'r gymuned ehangach.

Er bod cynnydd wrth gyflawni ein cynllun dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol mewn rhai meysydd, rydym yn parhau i geisio canolbwyntio ar feysydd lle gall gweithio mewn partneriaeth gael yr effaith fwyaf, a lle gall ein dylanwad ar y cyd ychwanegu gwerth uwchlaw'r hyn a wnawn eisoes fel sefydliadau unigol.

Byddaf yn rhoi'r gorau i'm swydd yn y cabinet yng Nghyngor Sir Penfro ym mis Mai, ac felly ni fyddaf yn parhau yn gadeirydd y BGC o'r adeg honno ymlaen.  Rwy'n falch o waith y BGC dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hoffwn ddiolch i'r holl asiantaethau partner am eu cyfraniadau at waith y bwrdd, a dymuno pob lwc i'r bwrdd yn ei ymdrechion yn y dyfodol.



**Y Cynghorydd Neil Prior**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro**

## Cefndir a chyd-destun

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro wedi nodi pedwar amcan llesiant i weithredu fel fframwaith y gall y bwrdd flaenoriaethu meysydd i ganolbwyntio arnynt yn ei gynllun llesiant. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant.
2. Hyrwyddo a chefnogi mentrau i ddatgarboneiddio, rheoli gwaith i ymaddasu i newid hinsawdd, a mynd i'r afael ag argyfwng byd natur.
3. Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol.
4. Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r newid i economi fwy cynaliadwy a gwyrddach.

Er bod gennym amcan llesiant sy'n ymwneud â'r economi a thwf, mae yna ystod eang o drefniadau partneriaeth a byrddau presennol sy'n canolbwyntio ar y gwaith hwn yn yr ardal leol. Felly, er mwyn osgoi dyblygu, mae'r BGC wedi cytuno i beidio â gweithio'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r amcan hwn, ond i fanteisio ar gyfleoedd lle gallwn, i gyfrannu at yr amcan hwn.

Mae'r BGC wedi dewis canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth sy'n ymwneud â:

- Tlodi ac anghydraddoldebau
- Natur, datgarboneiddio a newid hinsawdd
- Cryfhau cymunedau

Rydym yn parhau i ddefnyddio dull tair haen o gyflawni ac adrodd ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn. Mae'r BGC ei hun (lefel aur) yn darparu cyfeiriad, cefnogaeth, her a goruchwyliaeth o gynnydd a chyflawniad.  Mae'r grwpiau prosiect unigol (lefel arian) yn cael eu cadeirio gan aelodau'r BGC i sicrhau atebolrwydd a pherchnogaeth dros gyflawni'r cynllun, ac maent hefyd yn gyfrifol am nodi a dyrannu adnoddau ac arwain ar ymgysylltu ar gyfer pob maes yn y prosiect. Mae grwpiau gweithredol (lefel efydd) yn cynorthwyo gwaith y grwpiau prosiect.  Ym mhob cyfarfod o'r BGC cynhelir sesiwn 'sylfaen' ar un o feysydd y prosiect i roi ffocws mwy manwl ar gynnydd, cyflawniadau, dyheadau a phryderon.

## Ein hamcanion llesiant

### *Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant*

*Cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol*




**Trosolwg**

Mae'r gweithgor **Tlodi ac Anghydraddoldebau** yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn ac mae'n cael ei gadeirio gan yr awdurdod lleol. Mae cyflawni'r camau gweithredu o fewn y strategaeth dlodi a gyhoeddwyd yn 2023 yn parhau, a gafodd ei llywio gan ddata lleol a chenedlaethol, a phrofiadau'r rhai mewn tlodi yn Sir Benfro. Mae'r is-grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio cyflawniad y camau gweithredu ac i gydweithio ar gyflawni prosiectau a ariennir gan grantiau.

**Ein cynnydd yn 2024–2025**

- Cynhaliwyd ail uwchgynhadledd tlodi Sir Benfro ym mis Ebrill 2025, gyda chanolbwyntio parhaus ar archwilio materion lleol a nodi atebion creadigol i frwydro yn erbyn tlodi yn Sir Benfro.
- Ar ddechrau 2025, prynodd Cyngor Sir Penfro becyn meddalwedd a fydd yn cynorthwyo gwaith y gweithgor. Mae platfform yr offeryn tracio teuluoedd incwm isel (LIFT) yn defnyddio data o nifer o ffynonellau i nodi'r rhai nad ydynt efallai'n hawlio budd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael.
- Mae is-grŵp profiad byw hefyd yn cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys unigolion yr effeithir arnynt gan dlodi i archwilio eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau a systemau cymorth sydd ar gael.

**Y 12 mis nesaf**

- Myfyrio ar yr adborth o uwchgynhadledd tlodi 2025 cyn dechrau cynllunio ar gyfer yr uwchgynhadledd nesaf yn 2026.
- Cynnal ymgyrchoedd cychwynnol o ganlyniad i brynu platfform LIFT.
- Sefydlu'r is-grŵp profiad byw ac integreiddio argymhellion y grŵp i waith y gweithgor Tlodi ac Anghydraddoldebau.

*Hyrwyddo a chefnogi mentrau er mwyn datgarboneiddio, rheoli'r broses o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng ym myd natur*

*Cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol*




**Trosolwg**

Mae'r grŵp **Natur, Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd** yn cynnwys tri maes prosiect gwahanol, pob un â swyddog arweiniol unigol. Mae gwaith y grŵp wedi cael ei ohirio eleni oherwydd newidiadau yng ngallu'r cadeirydd a swyddogion unigol i gyfrannu at gyflawni'r prosiect.

**Ein cynnydd yn 2024–2025**

- Datblygu pecyn cymorth addasu i'r hinsawdd ar gyfer Sir Benfro, wedi'i gynllunio i helpu cymunedau yn Sir Benfro i feithrin gwytnwch yn erbyn y risgiau cynyddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.
- Gwaith parhaus i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer hyfforddiant deallusrwydd carbon.
- Ymgysylltu ag amrywiol bartneriaid y BGC i ddarparu sesiynau hyfforddi a gwybodaeth ar feysydd o ddiddordeb i ysgolion. Mae angen gwaith pellach i ddatblygu fframwaith i bob partner BGC ddangos ac adrodd ar sut maen nhw'n cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

**Y 12 mis nesaf**

- Parhau i gyfarfod â chymunedau i gael rhagor o fewnbwn ac adborth ar y pecyn cymorth addasu i'r hinsawdd.
- Mae cynllun ynni ardal leol Sir Benfro bellach yn cael ei gyflwyno'n rhanbarthol drwy gyd-bwyllgor corfforedig De-orllewin Cymru. Mae angen gwaith pellach dros yr ychydig fisoedd nesaf i nodi meysydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, lle gall y BGC gyfrannu at y ddarpariaeth hon neu ddefnyddio ei ddylanwad ar y cyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd heriol.
- Sicrhau cyllid i barhau i gyfrannu at weithgarwch prosiect y BGC.

*Sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel, yn gysylltiedig, yn ddyfeisgar ac yn amrywiol*

*Cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol*




**Trosolwg**

Mae'r is-grŵp **Cryfhau Cymunedau** yn arwain ar waith ar gyfer yr amcan hwn, gan adeiladu ar waith a wnaed fel rhan o'n cynllun llesiant cyntaf.  Y nod yw cael ffocws cryfach ar gryfhau ein cymunedau ac ar eu galluogi i ddod yn fwy adnoddol, gan weithio ochr yn ochr â phobl leol ar y pethau sydd bwysicaf i'w cymunedau.  Mae gwaith y grŵp hwn yn canolbwyntio ar egwyddorion cymunedau egnïol, cysylltiedig, dyfeisgar a chynaliadwy.

Y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2024–2025 oedd y canlynol:

- Gwirfoddoli
- Proffiliau cymunedol a chynlluniau llesiant
- Mentrau cymdeithasol
- Trosglwyddo asedau cymunedol
- Hwb cymunedol / cysylltwyr

**Ein cynnydd yn 2024–2025**

- Mae strategaeth gwirfoddoli wedi'i chynhyrchu a bydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2025.

- Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid ar gyfer proffiliau cymunedol a chynlluniau llesiant ar ddiwedd 2024, a gwahoddwyd cymunedau o bob cwr o Sir Benfro i wneud cais i weithio gyda'r prosiect i gyd-greu eu cynlluniau a'u proffiliau eu hunain. Ar ôl dethol, dewiswyd pedair cymuned yn wreiddiol, gyda dwy (Crymych a Thyddewi) yn dewis bwrw ymlaen a datblygu eu cynlluniau eu hunain. Mae digwyddiadau ymgysylltu, diwrnodau datblygu a hyfforddiant wedi bod yn digwydd yn y ddau ac mae gwaith wedi'i dargedu wedi'i wneud gydag ysgolion lleol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Sefydlwyd grŵp llywio ar gyfer yr hwb cymunedol (siop un stop ar gyfer cyngor, canllawiau, gwybodaeth a chyfeirio yn y sir) a'r cysylltwyr cymunedol (sy'n darparu cymorth i bobl gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau ar lefel y gymuned, a fydd yn eu helpu i gynnal bywydau annibynnol) i oruchwylio newidiadau yn y dyfodol a sicrhau bod y model yn parhau i fod yn gynaliadwy.
- Darparwyd hyfforddiant ar fethodoleg casglu straeon y Newid Mwyaf Sylweddol gan Gyda'n Gilydd dros Newid, Prifysgol Abertawe a Chyngor Sir Penfro ym mis Mehefin 2024. Mae'r set gyntaf o straeon wedi'i chasglu a'i hystyried mewn dwy drafodaeth panel, a chyflwynwyd detholiad bach o'r straeon yng nghyfarfod y BGC ym mis Chwefror er mwyn hyrwyddo trafodaeth ynghylch sut y gall tystiolaeth ansoddol o'r fath ddylanwadu ar wneud penderfyniadau.

**Y 12 mis nesaf**

- Dechrau'r gwaith y mae ei angen i ddylunio'r rhyngwyneb rhwng 'drws ffrynt' gofal cymdeithasol i oedolion a'r hwb cymunedol, a systemau, prosesau ac adnoddau cysylltiedig.
- Parhau i ddefnyddio'r broses a'r fethodoleg Newid Mwyaf Sylweddol i gynorthwyo gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau.
- Cefnogi darpariaeth barhaus o weithgareddau allweddol i gynorthwyo cymunedau, gan gynnwys sioeau teithiol Cadw'n Iach, ymgyrchoedd Byw'n Dda am Lai a Chadw'n Gynnes, Cadw'n Iach.

## Myfyrdodau ac edrych ymlaen

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i gyflawni prosiectau ar draws ystod o feysydd sy'n anelu at wella bywydau'r rhai sy'n byw yn ein sir, mae materion ehangach y tu hwnt i ddylanwad y BGC yn parhau i herio ac effeithio ar y nodau hyn.

Er enghraifft, o safbwynt Coleg Sir Benfro, mae lefelau sylweddol o dlodi yn parhau, sydd ag effaith uniongyrchol ar ddysgwyr. Mae llawer ohonynt yn wynebu heriau dyddiol fel fforddio bwyd, teithio, a hanfodion bywyd sylfaenol oherwydd pwysau parhaus costau byw. Rydym hefyd yn ailedrych ar ein ffrwd waith Natur, Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd o fewn y cynllun llesiant, sy'n gymhleth o ran ei gyflawni gan ei fod yn cyfuno tair maes prosiect ar wahân ond yn gydgysylltiedig. Mae atebion yn cynnwys ystyried a oes gennym y strwythurau cywir ar waith i gyflawni'r hyn sydd yn y cynllun llesiant, neu a oes angen i ni edrych eto ar yr hyn sydd yn y cynllun er mwyn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud ar y cyd fel partneriaid.

Gyda hyn a heriau eraill mewn golwg, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd, ac i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio i gyflawni'r cynllun, gan adeiladu ar ein llwyddiannau a'n cynnydd hyd yma. Mae gwaith ar y gweill i fapio'r argymhellion ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus a amlinellir yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, er mwyn pennu sut y gallai'r rhain gyd-fynd â chyflawni cynllun llesiant presennol Sir Benfro neu ddylanwadu ar baratoadau ar gyfer y cynllun nesaf. Bydd y BGC yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gofleidio darnau eraill o waith pwysig, lle gall ychwanegu ei ddylanwad a'i werth wrth i'r rhain ddod i'r amlwg, ond, fel bob amser, bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad a brwdfrydedd partneriaid i gydweithio i gyflawni ein huchelgeisiau.